| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Cymunedau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **6 Mawrth 2014** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol** |
| **Teitl:** | **Llwybrau Diogel mewn Cymunedau** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn edrych ar y fenter Llwybrau Diogel mewn Cymunedau (SRIC). Mae'n trafod cefndir y fenter yn ogystal â'r prosesau sy'n gysylltiedig â'r camau gwahanol o brosiect a ariennir gan grant SRIC Llywodraeth Cymru.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau wedi gofyn am bapur i edrych ar weinyddiaeth y Cynllun ar draws y sir, manteision y Cynllun, dadansoddiad o unrhyw broblemau a wynebwyd a'r mesurau a gymerwyd i'w datrys.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn rhoi sylwadau ac yn cefnogi'r cais parhaus am arian Llwybrau Diogel mewn Cymunedau yn Sir Ddinbych.

## 4. Manylion am yr Adroddiad

4.1. <u>Cefndir</u>

Mae Llwybrau Diogel mewn Cymunedau yn rhaglen ariannu Llywodraeth Cymru i annog lefelau cynyddol o gerdded a beicio. Fe'i sefydlwyd yn wreiddiol fel "Llwybrau Diogel i'r Ysgol" yn 1999 a chafodd ei ail-enwi yn "Llwybrau Diogel mewn Cymunedau" yn 2008.

Sefydlwyd rhaglenni Llwybrau Diogel i'r Ysgol yn wreiddiol yn Nenmarc yn y 1970au fel ffordd o leihau nifer y ceir sy'n cael eu defnyddio ar gyfer y daith i'r ysgol trwy ddarparu llwybrau cerdded a beicio diogel fel dewis arall. Mae'r manteision yn deillio o lai o dagfeydd, lleihau llygredd aer a gwelliannau cyfatebol i iechyd o ran mwy o weithgarwch corfforol.

Fel y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, mae'r Cyngor yn derbyn cwynion yn rheolaidd am broblemau parcio sy'n gysylltiedig â'r ysgol. Mae'r cwynion hyn yn tarddu yn bennaf oddi wrth drigolion sy'n byw yng nghyffiniau ysgolion er bod rhai yn dod hefyd gan rieni. Mae'r problemau hyn yn tueddu i fod yn waeth ar amseroedd agor a chau yr ysgol ond gall ddigwydd drwy'r dydd mewn ysgolion sydd â phroblemau parcio gorlif.

Mae problemau sy'n gysylltiedig ag ysgolion yn aml yn waeth mewn ysgolion trefol lle mae poblogaethau ysgolion yn uchel ac mae dalgylch mawr o fewn ardal ddaearyddol gymharol fach. Mae hyn yn golygu bod yr hawl i gael cludiant ysgol am ddim yn isel, gan arwain at gyfrannau uwch o blant yn cael eu gyrru i'r ysgol. Enghraifft dda o'r pwynt hwn yw arolwg a gynhaliwyd yn 2007 yn Ysgol Penmorfa ym Mhrestatyn. Canfu'r arolwg hwn fod 90% o'r disgyblion yn byw o fewn 1 cilometr (0.6 milltir) i'r ysgol. Er gwaethaf y pellter cymharol agos o'u cartrefi i'r ysgol, gwelwyd bod mwy na 60% o ddisgyblion yn teithio i'r ysgol mewn car.

Pan dderbynnir cwynion am barcio wrth ysgolion, bydd achwynwyr yn aml yn gwneud cais am i'r ysgol i greu lle parcio ychwanegol o fewn eu tiroedd. Gall gwneud hynny ddod â manteision tymor byr ond gall hefyd gynyddu lefelau traffig yn y pen draw. Mae hyn yn fwy na thebyg oherwydd bod tagfeydd presennol mewn gwirionedd yn gweithredu fel rhwystr i rai modurwyr.

4.2 Prosiectau Llwybrau Diogel Nodweddiadol

Fel y trafodwyd yn Adran 4.1, prif nod y prosiectau Llwybrau Diogel yw cynyddu nifer y bobl sy'n cerdded a beicio a hefyd i leihau faint o deithiau sy'n cael eu gwneud mewn car. Mae llwybrau beicio newydd a llwybrau troed yn nodwedd gyffredin o brosiectau Llwybrau Diogel ond gallant hefyd gynnwys cyflwyno mesurau tawelu traffig i leihau cyflymder traffig a darparu cyfleusterau croesi newydd i gerddwyr.

4.3 Prosiectau Llwybrau Diogel yn Sir Ddinbych

Ers 2006, fodd bynnag, mae cyfanswm o £1,400,000 wedi ei dderbyn. Mae rhestr o'r prosiectau Llwybrau Diogel a wnaethpwyd yn Sir Ddinbych ers 2006 ynghlwm yn Atodiad A.

4.4 Proses Weinyddol.

Tan yn gymharol ddiweddar, roedd yr holl gynlluniau Llwybrau Diogel a wnaethpwyd yn Sir Ddinbych yn canolbwyntio ar ysgolion. Roedd y broses o wneud cais am arian yn golygu llenwi ffurflen gais ar gyfer pob ysgol. Roedd hefyd yn hanfodol bod yr ysgol dan sylw wedi cynhyrchu Cynllun Teithio. (Mae Cynllun Teithio yn ddogfen sy'n datgan sut mae'r sefydliad yn mynd i leihau nifer ei weithwyr/ disgyblion ac ati sy'n teithio mewn car). Mae cynhyrchu Cynllun Teithio yn ddarn o waith beichus. Yn ymarferol, roedd nifer o ysgolion yn methu neu'n amharod i gynhyrchu Cynllun Teithio oherwydd yr ymrwymiad amser sy'n gysylltiedig ag o, a oedd yn lleihau'r nifer neu brosiectau'r ymgeisydd. Dair blynedd yn ôl, cyflwynodd Llywodraeth Cymru (LlC) y gofyniad am gynhyrchu Cynllun Teithio Cymunedol ar gyfer pob cais. Roedd hyn yn gosod cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i ffurfio Pwyllgor Teithio Cymunedol a fyddai'n cael y dasg o gynhyrchu'r Cynllun Teithio.

Mae'r broses o wneud cais am grant yn cymryd llawer o amser oherwydd y nifer helaeth o waith arolygu sydd angen ei gwblhau er mwyn darparu data llinell sylfaen addas. Mae'r gofyniad am Gynlluniau Teithio Cymunedol wedi cynyddu'r gwaith sy'n ofynnol gan awdurdodau lleol.

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau newydd y grant SRIC sy'n rhoi pwyslais yn ôl ar geisiadau yn seiliedig ar ysgolion.

4.5 Darparu prosiectau SRIC

Dros y 15 mlynedd ers y grant cyntaf, yn gyffredinol mae Sir Ddinbych wedi bod yn llwyddiannus iawn o ran gwneud cais am gyllid Llwybrau Diogel. Dim ond dwy flynedd yn unig lle na ddyfarnwyd arian. Digwyddodd hyn gyntaf ym mlwyddyn ariannol 2011-12 gan i’r grant cyffredinol ei ostwng yn sylweddol ac oherwydd teimlai Llywodraeth Cymru bod gan ein cais ormod o ffocws ar yr ysgol. Digwyddodd yr ail enghraifft o hyn yn y flwyddyn ariannol gyfredol. Cyflwynwyd dau gais; un ar gyfer Rhuthun ac un ar gyfer Bodelwyddan. Roedd y ddau gais am ail gyfnod prosiectau a ariannwyd yn y lle cyntaf gan y grant yn 2012-13. Y prif reswm dros fethiant y ceisiadau oedd bod Llywodraeth Cymru yn ddiweddar wedi newid y mecanwaith sgorio a ddefnyddir i asesu ceisiadau, er mwyn rhoi mwy o flaenoriaeth ar gyfer cynlluniau mewn ardaloedd difreintiedig.

4.6 Problemau a gafwyd

Mae'r prosiectau SRIC blaenorol a restrir yn yr Atodiad wedi cael eu darparu'n llwyddiannus. O bryd i'w gilydd, bu’n rhaid goresgyn problemau technegol, ond mae hyn yn gyffredin i bob cynllun adeiladu o'r natur hwn ac nid benodol i’r rhaglen Llwybrau Diogel.

Yn hanesyddol, yr unig broblem Llwybrau Diogel penodol oedd yr anhawster i gael rhai ysgolion i gynhyrchu Cynlluniau Teithio. Mae'r heriau o ddarparu prosiectau adeiladu o fewn ffrâm amser o flwyddyn hefyd wedi achosi problemau weithiau, ond mae hyn yn broblem gyffredin i lawer o gynlluniau a ariennir gan grant.

Mae'r Cynghorydd Sir dros Fodelwyddan a Chyngor Tref Bodelwyddan wedi mynegi pryderon am reolaeth prosiect Bodelwyddan SRIC. Gellir crynhoi’r pryderon hyn fel a ganlyn:

a) Crefftwaith gwael gan gontractwr yn effeithio ar rai o’r twmpathau cyflymder
b) Pryderon diogelwch am nodwedd tawelu traffig
c) Gwahaniaethau rhwng cynllun y cytunwyd arno a beth sydd ar y safle

Mae pwyntiau (a) a (b) yn cael sylw. Bydd y crefftwaith gwael yn cael ei wneud yn iawn gan y contractwr ar eu cost eu hunain, fel yw’r arfer safonol. Mae’r nodwedd tawelu traffig y cyfeirir ato yn (b) wedi'i ddileu mewn ymateb i'r pryderon a godwyd. Awgrymir nad yw’r naill o'r eitemau hyn yn rhywbeth unigryw i brosiectau SRIC.

Mae’r aelod lleol, y Cynghorydd E A Jones, wedi darparu tystiolaeth ysgrifenedig ar gyfer y Pwyllgor. Gellir gweld y dystiolaeth yn Atodiad D.

Mae'r awgrym ynghylch y gwahaniaethau amlwg rhwng y cynllun y cytunwyd arno a'r hyn sydd yno mewn gwirionedd yn cael ei esbonio’n fwy manwl mewn llythyr i Gyngor Tref Bodelwyddan sydd wedi’i gynnwys yn Atodiad B. Dim ond Cam 1 o’r cynllun sydd wedi cael ei weithredu hyd yma. Mae tair elfen i Gam 1 sef: llwybr beiciau; cynllun tawelu traffig gyda chroesfan sebra, a man gollwng wrth yr ysgol. Cafodd y trac beicio ei weithredu yn unol â'r llun gwreiddiol yn ystod y cyfnod ymgynghori. Ni chyflwynwyd manylion y nodwedd tawelu traffig na’r groesfan yn y cyfnod ymgynghori. Yn lle hynny, roedd nodyn ar y cynllun ymgynghori yn dweud byddai cynllun tawelu traffig a chroesfan yn cael eu datblygu yn y lleoliad hwnnw.

Ymgynghorwyd yn llawn ar yr elfennau hyn ar gyda rhanddeiliaid unwaith y dyluniwyd y cynllun tawelu traffig. Yn olaf, ychwanegwyd yr ardal ollwng ar ôl yr ymarfer ymgynghori cychwynnol gan y gofynnwyd amdano mewn nifer o ymatebion i'r ymgynghoriad. Ni chafodd y newid olaf hwn ei gyfleu i aelodau'r Cyngor Tref o'r Pwyllgor Teithio Cymunedol tan ar ôl i'r cais gael ei gyflwyno oherwydd diffyg amser.

Y brif wers i ddysgu oddi wrthi o'r mater olaf hwn yw i ni ganiatáu mwy o amser i gwblhau'r ymgynghoriad. Fodd bynnag, dylid nodi bod yr amserlen dynn yn bodoli'n bennaf oherwydd dymuniad y Pwyllgor Teithio i'r cynllun ddechrau cyn gynted ag y bo modd, yn hytrach nag aros 12 mis am y cylch cyllido nesaf.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae Llwybrau Diogel mewn Cymunedau yn cyfrannu tuag at y blaenoriaethau corfforaethol o "wella ein ffyrdd" drwy wella diogelwch y rhwydwaith. Mae hefyd yn gwneud cyfraniad tuag at y flaenoriaeth o "mae pobl ddiamddiffyn yn cael eu hamddiffyn ac yn gallu byw mor annibynnol ag y bo modd" drwy ddarparu llwybrau cerdded a beicio mwy diogel, gan gynnwys cyfleusterau ar gyfer y rhai sydd â nam ar eu symudedd.

## 6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Fel arfer, caiff costau cyfalaf gwaith newydd eu cynnwys yn llawn yn y grant. Caiff costau cynnal a chadw yn y dyfodol eu hystyried fel rhan o'r asesiad o opsiynau cynllun ac mae hyn yn cynnwys ymgynghori â thîm Rheoli Asedau yr Adran HES.
Fel arfer mae prosiectau Llwybrau Diogel yn lleihau traffig o amgylch ysgolion sydd â budd cadarnhaol ar gyfer yr ysgol o ran llai o dagfeydd a llai o gwynion.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd ar gyfer y penderfyniad? Dylai'r templed Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i lenwi gael ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad.

Mae'r AEC yn dod i'r casgliad y dylid cynnal AEC ar gyfer prosiectau SRIC unigol. Daw hefyd i'r casgliad bod prosiectau SRIC yn gyffredinol yn cael effaith gadarnhaol ar y rhai sydd â nam ar eu symudedd.

## 8. Pa ymgynghori a gwblhawyd gydag Archwilio ac eraill?

Nid wnaethpwyd unrhyw ymgynghori blaenorol â'r Pwyllgorau Archwilio mewn perthynas â SRIC. Ymgynghorwyd â'r holl brif randdeiliaid yn ystod y gwaith o ddatblygu pob prosiect SRIC. Mae angen dangos tystiolaeth o'r ymgynghori hwn yn y cais am grant.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Fel y nodwyd yn Adran 6, caiff yr holl gostau cyfalaf eu hariannu gan grantiau Llwybrau Diogel Mewn Cymunedau, caiff unrhyw gynnydd mewn costau refeniw cynnal a chadw eu cynllunio o fewn cyllideb gyffredinol bresennol yr Amgylchedd a Phriffyrdd. Gallai buddsoddiad yn y maes hwn hefyd gael effaith tawelu ar gynyddol costau Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol.

## 10. Pa risgiau sy’n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?

Un o ofynion y broses SRIC yw bod asesiadau risg yn cael eu cynnal ar gyfer pob prosiect i reoli risgiau penodol sy'n gysylltiedig â chyflwyno prosiectau. Pan fydd cynllun arfaethedig yn cael ei ariannu dros y blynyddoedd dilynol, mae yna risg mai dim ond y cam cyntaf fyddai’n cael arian, ac i’r camau dilynol beidio â sicrhau cyllid, felly awgrymir bod gwaith yn cael eu cynllunio fel bod y camau’n eithaf "annibynnol" o ran eu natur.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae Erthygl 6.3.3 o Gyfansoddiad y Cyngor yn nodi’r rôl Archwilio o ran datblygu ac adolygu polisi.

**Swyddog Cyswllt:**
Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch Ffordd (Ffôn: 01824 706959)